

**Grŵp Gorchwyl a Gorffen ar Fudd i'r Gymuned****Hysbysiad (29/4/13)**

Mae ymgorffori'r nod o sicrhau 'budd i'r gymuned' o fewn yr holl wariant caffael cyhoeddus priodol yn un o ymrwymadau'r Rhaglen Lywodraethu. Mae'r Gweinidog Cyllid wedi comisiynu'r 'Grŵp Gorchwyl a Gorffen ar Fudd i'r Gymuned' i atgyfnerthu'r polisi cysylltiedig a sicrhau'r canlyniadau cymdeithasol ac economaidd ehangaf posibl i ddinasyddion Cymru. Yn yr hinsawdd economaidd bresennol cydnabyddir bod angen herio'r ffiniau o ran yr hyn y gellir ei gyflawni. Mae Martin Mansfield (TUC) yn cadeirio'r grŵp y mae ei aelodau mewnol yn cynnwys SPFP (Gwerth Cymru a Buddsoddi Strategol), SF (Adfywio), LGC (Cymunedau yn Gyntaf), AdAS (Cyflogi Pobl Ifanc), BETS (Entrepreneuriaeth a Sectorau); ymhlith ei aelodau allanol mae Busnes Cymru, I2i, Sgiliau Adeiladu a Chyngor RhCT

1. Cynhaliwyd pedwerydd cyfarfod y Grŵp Gorchwyl a Gorffen ar Fudd i'r Cyhoedd ('y Grŵp') ar 29<sup>ain</sup> Ebrill 2013. Roedd llawer o'r drafodaeth yn ymwneud â'r Cerrig milltir y cytunwyd arnynt a nodwyd bod cynnydd da wedi'i wneud.
2. Clywodd y grŵp fod cyfleoedd o gyfarwydddebau'r UE wedi'u nodi ac y byddai rhagor o waith yn cael ei wneud i fapio mentrau cymdeithasol yng Nghymru. Awgrymwyd y dylid cael gwybodaeth o'r comisiwn y "Cymdeithasau Cydfuddiannol" cyn comisiynu rhagor o waith.
3. Roedd canllawiau Gwerth Cymru wedi'u hadolygu er mwyn adlewyrchu'r siart llif gan nodi mai'r 'dull gweithredu craidd' yw'r un rhagosodedig. Cytunodd y grŵp fod y siart llif bellach yn darparu crynodeb hawdd ei ddefnyddio. Câ'r canllawiau eu hailgyhoeddi ym mis Gorffennaf a byddent yn cyfeirio at bob model gan gynnwys i2i a'r dull gweithredu yn seiliedig ar Gleientiaid a ddatblygwyd gan Sgiliau Adeiladu.
4. Clywodd y grŵp fod llawer o waith wedi'i wneud i wella'r hyfforddiant a gynigir i'r sector cyhoeddus. Roedd tîm Gwerth Cymru wedi trafod Cynllun Buddsoddi yn Seilwaith Cymru a rhoi statws RAG i'r prosiectau yn seiliedig ar ei wybodaeth a'i ddealltwriaeth o brosesau sicrhau Budd i'r Gymuned. Câ statws y prosiectau ei ddilysu cyn iddo gael ei rannu â Chyfarwyddwyr Cyffredinol Llywodraeth Cymru.
5. Trafodwyd profiadau cadarnhaol a negyddol Contractwyr ac roedd y grŵp o'r farn y dylid mapio'r cymorth sydd ar gael i contractwyr. Byddai angen cynnal ymarfer hefyd i nodi hyrwyddwyr o fewn sefydliadau ar y lefel briodol i ddatblygu hyn.
6. Cydnabuwyd bod 18 o brosiectau wedi'u cwblhau a'u bod wedi olrhain eu canlyniadau gan ddefnyddio'r Adnodd Mesur. Erbyn y gwariant cyfartalog a gadwyd o fewn Cymru oedd 82% gyda mwy na 12,500 o wythnosau hyfforddi yn cael eu darparu a rhoddwyd cymorth i 384 o unigolion i ddod o hyd i waith. Cytunodd CLILC i helpu i sicrhau bod canlyniadau ein Hawdurdodau Lleol yn cael eu monitro'n fanylach.
7. Nododd y Cadeirydd y byddai'n rhoi adroddiad ar y cynnydd a wnaed i'r Prif Weinidog yn fuan.

**Cyfarfod Nesaf:**

- 29<sup>ain</sup> Gorffennaf 2013: 2pm – 4pm Swyddfa Llywodraeth Cymru ym Merthyr Tudful

Ymholiadau i: [Rebecca.Rees2@wales.gsi.gov.uk](mailto:Rebecca.Rees2@wales.gsi.gov.uk) 02920 825811